

GALWAD

ECONOMI GYLCHOL

ARCHWILIWCH GYLCHRED CYLCH
BYWYD O NATUR A'I GYM HARU Â
CHYLCH BYWYD CYNHYRCHION O
WAITH DYN



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndir


Ledled y byd, mae'r prif wareiddiadau yn seiliedig ar fodel economaidd cymryd-gwneud-gwastraffu. Hynny yw, wrth i ni greu cynhyrchion a thechnolegau newydd i wneud ein bywydau yn haws, rydym wedi gwneud hynny heb gofio bod adnoddau'r byd yn gyfyngedig. Mae ganddo swm cyfyngedig o adnoddau naturiol i'w hechdynnu ac mae cyfyngiadau hefyd ar faint a math y gwastraff y gall ymdopi ag ef. Gelwir y model cymryd-gwneud-gwastraffu hwn hefyd yn 'Economi Linol'.

Nid yw hon yn ffordd gynaliadwy o fodoli, yn y pen draw bydd adnoddau'n cael eu defnyddio a bydd gwastraff yn llygru'r ddaear.



Ar gyfer byd cynaliadwy, lle gallwn fwynhau manteision ein ffyrdd modern o fyw, mae angen inni symud tuag at 'Economi Gylchol'. Dyma lle mae pob cam o gylch bywyd eitem yn cael ei ystyried, sut mae wedi'i dylunio, sut mae'n cael ei defnyddio a beth sy'n digwydd iddi wedyn.

Onid yw Economi Gylchol yr un peth ag ailgylchu? Mae rhai eitemau yn ddelfrydol ar gyfer ailgylchu. Mae alwminiwm, er enghraifft, yn gallu cael ei ailgylchu dro ar ôl tro, tra'n cynnal y nodweddion sy'n ei wneud mor ddefnyddiol i ni.



Mae'r ffordd y mae plastig yn cael ei ailgylchu ar hyn o bryd, ar y llaw arall, yn fwy o achos o ddirywiad yn hytrach na dolen ddiddiwedd. Mae plastigau fel arfer yn cael eu didoli, eu glanhau, eu rhwygo, eu toddi a'u hail-fowldio. Bob tro mae plastig yn cael ei ailgylchu fel hyn, mae ei ansawdd yn cael ei ddiraddio. Mae'r plastig newydd, gradd is yn aml yn dod yn anaddas i'w ddefnyddio mewn pecynnau bwyd a gellir

ailgylchu'r rhan fwyaf o blastig nifer cyfyngedig iawn o weithiau cyn iddo gael ei ddiraddio cymaint fel na ellir ei ddefnyddio. Felly, hyd nes y gellir gwneud gwelliannau i'r broses bresennol, nid ailgylchu yn unig yw'r ateb i'r broblem o adnoddau'n lleihau a gwastraff cynyddol.

Mae'r cynhyrchion rydyn ni'n eu cynhyrchu hefyd yn aml iawn yn gymysgedd o sawl math o ddeunyddiau, a all ei gwneud yn gymhleth iawn, gan ddefnyddio llawer o ynni a golygu ei fod yn anodd eu hailgylchu.

Dysgwch fwy am yr Economi Gylchol a strategaeth i Gymru yn [Y Tu Hwnt i Ailgylchu \(llyw.cymru\)](#).



Yn 2019, cyfanswm pwysau offer electronig gwastraff ledled y byd oedd 53.6 miliwn o dunelli.



Yn fyd-eang, mae defnyddwyr yn gwastraffu hyd at £390 biliwn bob blwyddyn drwy daflu dillad sy'n dal yn wisgadwy i safleoedd tirlenwi.



Penderfynir dros 80% o effaith amgylcheddol cynnyrch yn ystod y cam dylunio.


Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych ar y prosesau cylchol sy'n digwydd yn naturiol ym myd natur a sut y gallwn gymryd ysbrydoliaeth i ddylunio cynhyrchion sy'n ein galluogi i fyw'n fwy cynaliadwy.

Nid oes unrhyw wastraff mewn natur, mae gan bopeth bwrpas. Mae gwastraff un rhywogaeth yn danwydd i un arall. Mae byd natur yn llawn enghreifftiau o brosesau cylchol a all ein hysbrydoli i feddwl yn greadigol am fyd mwy cynaliadwy.

1. Archwiliwch ardal yn yr awyr agored lle mae prosesau naturiol yn digwydd, fel coetir, rhandir, pwll, traeth ac ati. Gallai hyn fod y tu mewn neu'r tu allan i dir yr ysgol. Chwiliwch am enghreifftiau o gylchredau naturiol a lluniwch ddiagram o'r broses. Ee cylch bywyd aderyn

Edrychwch ar eich diagram ac amlygwch ble mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod y gylchred. Beth sy'n digwydd i'r gwastraff hwn?



Prosesau ailadrodd pellach y gallech ei harchwilio: cylch bywyd coeden; y gylchred ddŵr; resbiradaeth coed

2. Dewiswch rywbeth o waith dyn rydych chi wedi'i ddefnyddio'n ddiweddar. Gallai fod yn fwyd, adloniant, ffasiwn, nwyddau harddwch neu unrhyw beth arall! Efallai pecyn o greision, ffôn clyfar, siwmpwr ysgol neu frws dannedd. Ceisiwch luniadu ei gylch bywyd mor fanwl ag y gallwch, o'i ddeunyddiau crai, trwy ei weithgynhyrchu, i'w waredu. Efallai y byddwch am chwilio'r rhyngwyd i gynorthwyo'ch ymchwil.

Beth ydych chi'n sylwi am y cylch bywyd, allwch chi dynnu sylw at ble mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu? A oes rhannau o'r broses sy'n niweidiol i'r amgylchedd?

3. Meddyliwch sut y gallech chi wneud y cynnyrch yn fwy cynaliadwy. Meddyliwch sut y gellid ei ddylunio yn y lle cyntaf i fod yn well i'r amgylchedd, neu a yw'n bosibl ymestyn y defnydd o'r eitem, trwy aildefnyddio neu atgyweirio?

Gweithgaredd ymestyn: Ymchwilwch i fusnesau yng Nghymru a ledled y byd sy'n cyfrannu at economi gylchol. Rhai manau cychwyn:

- [Pecynnau creision y gellir eu compostio](#)
- [Ellen MacArthur Foundation Great Ideas](#)
- [Pecynnu Ail-lenwi](#)
- [Repair Café Wales](#)
- [Benthyg Cymru](#)

Myfyrio

Wrth i'n poblogaeth fyd-eang dyfu, mae angen i'n galw am adnoddau newydd leihau os ydym am greu dyfodol cadarnhaol a chynaliadwy. Rydym wedi dysgu sut mae natur yn hollol gylchol; nid oes dim yn cael ei wastraffu ac mae popeth yn cyfrannu at ecosystem gytbwys. A oes unrhyw wersi eraill y gallem eu dysgu gan fyd natur i'n helpu i fyw mewn Byd mwy 'cylchol' yn 2052?

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus
- Cyfranwyr mentrus, creadigol

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae meddwl am ddyluniadau a'u creu yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Y Dyniaethau

- Dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd

Nodau Byd-eang



[Nod 15: Bywyd ar y Tir](#)

[Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol](#)

[Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy](#)

GALWAD

UNBOXED

CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru

